Yn Lloegr, gall nanis a gwarchodwyr plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed ddewis cael eu cymeradwyo. Dewis gwirfoddol yw hwn i ofalwyr plant nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru yn ôl y gyfraith. Er mwyn cael eu cymeradwyo, mae'n rhaid i nanis a gwarchodwyr plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed feddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn gofal plant neu fod wedi dilyn cwrs rhagarweiniol ar ofal plant, ac mae'n rhaid bod ganddynt dystysgrif ddilys mewn cymorth cyntaf i blant ynghyd â datgeliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae cynllun tebyg yn cael ei ddatblygu yng Nghymru ar hyn o bryd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant sy'n bodoli yn Lloegr, trowch at [www.childcareapprovalscheme.co.uk](http://www.childcareapprovalscheme.co.uk).



**Ble mae dechrau  
chwilio**



Cyn dechrau chwilio am warchodwr plant neu nani, meddylwch am y math o berson yr ydych am ei gael i ofalu am eich plant. Pa lefel y byddech yn dymuno i'r person fod wedi'i chyrraedd o safbwynt cymwysterau neu brofiad? Pa weithgareddau yr hoffech chi i'r person eu gwneud gyda'r plant? Meddylwch am eich dull chi eich hun o fagu plant, a ph'un a fyddech yn hoffi cael rhywun sydd â'r un dull â chi neu rywun i weithio mewn modd a fyddai'n cyd-fynd â hynny.

Y ffordd orau o ddechrau chwilio am warchodwyr plant a nanis yw trwy ofyn i bobl yr ydych yn eu hadnabod am gyngor. Dywedwch wrth gyfoedion, ffrindiau ac aelodau'r teulu eich bod yn chwilio am ofal plant. Efallai y byddant yn gallu argymhell gwarchodwr plant neu nani ar eich cyfer. Ond cadwch feddwl clir – chi fydd yn penderfynu yn y pen draw, ac efallai na fydd yr hyn sy'n addas i'ch cymydog yn addas i chi.



### Dod o hyd i warchodwr plant

Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth Plant lleol roi rhestr i chi o'r gwarchodwyr plant cofrestredig sydd â lleoedd gwag. Efallai y bydd y gwasanaeth hwn yn medru rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi hefyd, megis manylion yr ysgolion a'r cylchoedd chwarae y gall gwarchodwyr plant fynd â'ch plentyn iddynt neu gasglu'ch plentyn ohonynt, neu fanylion sy'n dangos p'un a oes ganddynt ardd neu anifeiliaid anwes.

Gallwch gael manylion am eich Gwasanaeth Gwybodaeth Plant agosaf a chwilio am warchodwyr plant drwy droi at wefan ChildcareLink, sef [www.childcarelink.gov.uk](http://www.childcarelink.gov.uk), neu drwy ffonio'r Is-adran Plant a Theuluoedd ar 029 2082 6802.

Os ydych yn chwilio am warchodwr

plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed, gallech fynd i'ch ysgol leol i weld a yw'r staff yno'n gwybod am rai neu'n cadw rhestr o rai.

### Dod o hyd i nani

Hysbysebwbch yn eich papur lleol neu mewn cylchgronau arbenigol ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio. Os hoffech gyflogi rhywun sydd newydd gael ei hyfforddi, cysylltwch â cholegau lleol sy'n cynnig cyrsiau mewn gofal plant. Ar y llaw arall, gallech ddefnyddio asiantaeth nanis. Bydd asiantaeth o'r fath yn codi ffi am baratoi rhestr o nanis addas ar eich cyfer. Bydd asiantaeth dda yn cynnal ei harchwiliadau ei hun cyn rhoi enw nani ar ei llyfrau. Gallwch ddod o hyd i asiantaeth drwy chwilio ar y we, edrych mewn cylchgronau arbenigol i deuluoedd sy'n gweithio, neu edrych yn llyfr ffôn y Tudalennau Melyn.

### Dechrau'n gynnar

Mae rhai rhieni'n ddigon ffodus i ddod o hyd i'r gwarchodwr plant neu'r nani iawn bron ar unwaith, ond gallai gymryd sawl mis i chi wneud hynny. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer casglu rhestrau o enwau gwarchodwyr plant neu hysbysebu am nani, llunio rhestr fer, cynnal cyfweiliadau a dewis person addas. Byddwch am ganiatáu digon o amser i'ch plentyn ymgyfarwyddo â'i ofalwr newydd hefyd, felly mae'n syniad da dechrau chwilio'n gynnar.



## Barn rhieni

“Fe ddechreun ni chwilio am warchodwr plant dri mis cyn i mi ddychwelyd i’r gwaith. Fe fuon ni’n ffodus iawn, oherwydd roeddwn yn teimlo’n gyfforddus ar unwaith yng nghartref Nicola ac fe wnaeth hi a Jasmine glicio yn syth. Mae gwybod bod fy merch i’n hapus ac yn ddiogel yng ngofal Nicola yn ei gwneud yn llawer haws i mi ddychwelyd i’r gwaith.”

Mrs HC, Swydd Hertford

“Mae rhannu nani yn drefniant perffaith. Mae’n drefniant cost-effeithiol ac mae’n hyblyg iawn hefyd, ac mae’r nani yn fy helpu i ddiwallu’r anghenion sydd gennyf o ran gofal plant. Mae hi fel aelod o’r teulu.”

Mrs KS, Caint



“Mae gwarchodwr plant fy merch yn gwneud cymaint o bethau gyda hi yn ystod gwyliau ysgol – coginio, mynd ar dripiâu, gwneud gweithgareddau – dyna pam y gwnaethon ni ei dewis hi.”

Mrs HG, Leeds





# Dewis gwarchodwr plant

*Gwarchodwr Plant*  
wyddys i'w gwarchodwr plant  
wyddys i'w gwarchodwr plant  
wyddys i'w gwarchodwr plant  
wyddys i'w gwarchodwr plant  
wyddys i'w gwarchodwr plant

Pan fydd gennych restr o enwau gwarchodwyr plant, lluniwch restr fer. Gorau po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei chael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant, oherwydd bydd hynny'n ei gwneud yn haws i chi lunio rhestr fer. Peidiwch â dibynnu'n gyfan gwbl ar restr o warchodwyr plant sydd â lleoedd gwag. Fe dalai'r ffordd i chi ffonio rhai eraill hefyd, oherwydd gallai fod ganddynt leoedd sy'n dod yn wag yn y dyfodol. Yn ogystal, ceisiwch gadw meddwl mor agored ag sy'n bosibl yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, gallai'r rhestr fod yn dangos nad oes gan warchodwr plant ardd, ond ni fydd y rhestr yn dweud wrthyhch ei fod ef/ei bod hi'n mynd â'r plant i'r ardal chwarae yr ochr arall i'r heol bob dydd.

Gwnewch restr o gwestiynau i'w gofyn i'r gwarchodwr plant pan fyddwch yn ei ffonio am y tro cyntaf. Gall fod yn anodd iawn gwybod lle i ddechrau, a bydd cael rhestr ysgrifenedig o'ch blaen yn ddefnyddiol i'ch atgoffa o'r hyn y dylech ei ofyn. Soniwch am oedran eich plentyn, a soniwch am y diwrnodau a'r oriau y bydd angen gofalu amdano. Efallai y byddwch am ofyn rhai cwestiynau byr am bethau sy'n bwysig i chi hefyd, er enghraifft, faint o amser y mae'r gwarchodwr plant yn ei dreulio allan o'r tŷ a pha fath o fwyd y mae'n ei baratoi.

Os byddwch yn ffonio'r gwarchodwr plant yn ystod y dydd, cofiwch ei bod yn debygol iawn y bydd ef/hi'n gofalu am blant. Felly, gofynnwch bob amser a yw'n gyfleus i siarad a chadwch eich cwestiynau'n fyr. Os yw'r gwarchodwr plant yn ymddangos yn addas, trefnwch ddiwrnod ac amser i ymweld ag ef/hi.

## Ymweld â'r gwarchodwr plant

Gwnewch apwyntiadau i weld o leiaf dau neu dri o warchodwyr plant. Yn ddefnyddiol, dylech ymweld â hwy pan fo plant yno er mwyn gweld p'un a yw'r awyrgylch yn un hapus a phrysur. Os ydych am drafod unrhyw fater yn fanylach, gallech drefnu ail ymweliad ar adeg dawelach.

Gofynnwch i'r gwarchodwr plant fynd â chi o gwmpas y tŷ, gan gynnwys yr ystafell ymolchi a'r manau lle bydd eich plentyn yn bwyta, cysgu a chwarae. Edrychwch ar y teganau, y llyfrau a'r cyfarpar i wneud yn siŵr bod popeth yn lân ac yn ddiogel.

Evch â'ch plentyn gyda chi os yw hynny'n bosibl er mwyn gweld sut groeso y bydd yn ei gael gan y grŵp. Cofiwch fynd â phapur a beiro gyda chi er mwyn gwneud nodiadau. Defnyddiwch "Fy nodiadau yn ystod cyfweiliad" ar dudalennau 52-53 os yw hynny o unrhyw gymorth i chi.



### AELODAU'R NCMA

Os yw eich gwarchodwr plant yn aelod o'r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA), mae'n dangos ei fod ef/ei bod hi wedi ymrwymo i'r proffesiwn. Caiff pob aelod wybodaeth yn rheolaidd i'w cynorthwyo i gynnig y gwasanaeth gorau posibl. Mae'r gwarchodwyr plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed ac sy'n aelodau o'r NCMA yn gallu ymrwymo i weithio tuag at safonau ansawdd hefyd. Mae'r safonau hynny'n cwmpasu pob agwedd ar waith gwarchod plant.

### HYFFORDDIANT I WARCHODWYR PLANT

Gall gwarchodwyr plant ddatblygu eu gyrfaedd drwy gael hyfforddiant a thrwy gwblhau cymhwyster megis Diploma CACHE mewn Gofal Plant yn y Cartref (teitl blaenorol y cymhwyster oedd y Dystysgrif mewn Arferion Gwarchod Plant). Mae'r Diploma yn cynnwys pum uned sy'n astudio gwahanol agweddau ar ofalu am blant.

### SICRHAU ANSAWDD

Mae cynlluniau sicrhau ansawdd yr NCMA yn cynnwys gwaith asesu trwydd, ac maent yn fwy manwl na'r broses gofrestru sylfaenol. Mae cynllun NCMA Quality First wedi'i lunio ar gyfer gwarchodwyr plant unigol, ac mae cynllun NCMA Plant yn Gyntaf wedi'i lunio ar gyfer rhwydweithiau gwarchod plant. Mae'r ddau gynllun yn cynorthwyo gwarchodwyr plant i ddarparu gofal plant o safon. Maent yn eu hannog i ystyried y modd y maent yn cyflawni eu gwaith, ac yn eu hannog hefyd i ddilyn llwybr a fydd yn eu galluogi i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

## Cwestiynau i'w gofyn

Cyn ymweld â gwarchodwr plant, neilltuwch ychydig amser i feddwl am yr holl bethau yr ydych yn chwilio amdanynt mewn gwarchodwr plant. Gwnewch restr o gwestiynau – gall y rhai a nodir isod fod yn fan cychwyn i chi. Peidiwch â phoeni am ofyn cwestiynau oherwydd mae gwarchodwyr plant wedi hen arfer â hynny.

### Y GWARCHODWR PLANT

- ✓ Ers pryd rydych chi wedi bod yn warchodwr plant?
- ✓ Beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y swydd?
- ✓ Pam y gwnaethoch chi benderfynu bod yn warchodwr plant?
- ✓ Ydych chi'n aelod o'r NCMA?
- ✓ A oes gennych chi unrhyw gymwysterau perthnasol? Pa hyfforddiant rydych chi wedi'i gael?
- ✓ Ydych chi'n perthyn i grŵp neu rwydwaith gwarchod plant?
- ✓ Ydych chi'n rhan o gynllun sicrhau ansawdd?

### Y LLEOLIAD

- ✓ Faint o blant eraill rydych chi'n gofalu amdanynt? Faint yw eu hoed? Ers pryd rydych chi wedi bod yn gofalu amdanynt?
- ✓ A oes gennych chi blant eich hunan? Os felly, faint yw eu hoed?
- ✓ Allwch chi ddisgrifio diwrnod neu wythnos nodweddiadol yn eich swydd fel gwarchodwr plant?
- ✓ Sut rydych chi'n sicrhau eich bod yn cynnal perthynas weithio dda â'r rhieni?
- ✓ Pa drefniadau sydd mewn grym ar gyfer prydau bwyd a byrbrydau?
- ✓ Beth sy'n ymddygiad annerbyniol yn eich barn chi, a sut rydych chi'n ymdrin ag ymddygiad o'r fath?
- ✓ Pa wyliau ac achlysuron arbennig rydych chi'n eu dathlu, a sut rydych chi'n eu dathlu?
- ✓ Beth fydddech chi'n ei wneud mewn argyfwng a fyddai'n effeithio anoch chi neu un o'r plant?
- ✓ Ydych chi'n mynd â'r plant allan yn y car o gwbl? Os felly, oes gennych chi yswiriant priodol, gwregysau diogelwch a seddi car pwrpasol?
- ✓ Ydych chi a'r plant yn mynd allan yn rheolaidd yn ystod yr wythnos?
- ✓ Ydych chi'n trefnu unrhyw dripliau arbennig o gwbl?
- ✓ A oes gennych chi anifeiliaid anwes, neu ardd?
- ✓ Pa drefniadau sydd mewn grym ar gyfer gwyliau – ein gwyliau ni a'ch gwyliau chi?
- ✓ Sut rydych chi'n gwneud yn siŵr bod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu diwallu?

### Y GWAITH PAPUR

- ✓ A fyddai'n bosibl i mi weld eich tystysgrifau cofrestru a'ch tystysgrifau yswiriant?
- ✓ A fyddai'n bosibl i mi weld adroddiad arolygu ASGC neu Ofsted mewn perthynas â chi?
- ✓ A fyddai'n bosibl i mi weld unrhyw dystlythyrau gan rieni?



**Dewis nani**



Mae sawl ffordd o ddod o hyd i nani. Asiantaethau a hysbysebion preifat yw'r ddwy ffordd fwyaf poblogaidd.

Mae cannoedd o asiantaethau nanis yn y DU. Fel rheol, mae asiantaethau'n codi ffi ar rieni am ddod o hyd i nani sy'n addas ar eu cyfer, ac mae nifer ohonynt yn cynnig gwasanaeth 'ôl-ofal' hefyd er mwyn helpu i sicrhau bod y trefniant yn un llwyddiannus.

Bydd asiantaeth dda yn cynnal nifer o archwiliadau cyn rhoi nani ar ei llyfrau. Efallai y bydd y nanis yn cael cyfweliad, efallai y bydd hanes eu cyflogaeth a'u tystlythyrau'n cael eu gwirio, ac efallai y bydd datgeliad manwl ar gael gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol mewn perthynas â hwy. Yn ogystal, bydd yr asiantaeth yn rhoi gwybod i chi am eich rhwymedigaethau cyfreithiol wrth gyflogi nani.

Os byddwch yn hysbysebu am nani mewn cyhoeddiadau megis 'Nursery World' neu 'The Lady', neu'n hysbysebu ar y we, bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn gwirio pob tystlythyr yn ofalus cyn penodi unrhyw un.

P'un a fyddwch yn defnyddio asiantaeth i ddod o hyd i nani neu'n hysbysebu am un ar eich liwt eich hun, bydd gennych restr fer o nanis i'w cyfweld yn y pen draw.

### Awgrymiadau ar gyfer cyfweld

#### 1. Dilynwch eich greddf

Bydd gennych syniad go dda o'r math o berson yr ydych yn chwilio amdano i ofalu am eich plant. Fodd bynnag, daliwch ati i chwilio os nad ydych yn teimlo'n hollol gysurus – hyd yn oed os yw'r person yr ydych yn ei gyfweld yn bodloni'r holl ofynion, yn meddu ar y cymwysterau uchaf ac yn dwyn yr argymhellion gorau.

#### 2. Gofynnwch am ail farn

Gofynnwch i rywun arall eich cynorthwyo i gyfweld – eich partner, ffrind neu berthynas. Gallant fod o gymorth i gefnogi eich barn a gallant fod yn dyst i bob peth a gaiff ei ddweud.

#### 3. Gofynnwch iddynt ddod yn ôl

Mae'n syniad da gwahodd eich nani yn ôl am ail "gyfweliad gweithio" fel y gall dreulio mwy o amser gyda'ch teulu.

#### 4. Cyflwynwch eich plant

Mae'n bwysig bod eich nani yn medru sefydlu perthynas agos â'ch plant yn fuan. Yn aml, bydd hyn yn amlwg pan fyddant yn cwrdd am y tro cyntaf. Chi sydd i benderfynu pryd y bydd eich plant a'ch darpar nani yn cwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf, ond mae'r ail gyfweliad yn gyfle da oherwydd byddwch wedi cael amser erbyn hynny i wneud yn siŵr eich bod yn hapus â'r ymgeisydd (ymgeiswyr).

#### 5. Cyfnod cynefino

Cytunwch ar gyfnod prawf gyda'ch nani cyn iddo/iddi dderbyn y swydd yn llawn amser. Gallai'r cyfnod hwnnw amrywio o wythnos i dri mis o ran hyd. Rhowch fanylion y cyfnod prawf yn y contract, a thalwch eich nani am y cyfnod hwnnw.

**"Roeddwn i a'm ffrind am rannu nani, a bu cyfweld ymgeiswyr ar y cyd o gymorth i ni fod yn glir ynghylch yr hyn yr oeddem am ei gael allan o'r trefniant. Mae'n gymorth mawr cael rhywun y gallwch ymddiried ynddo wrth wneud penderfyniad mor bwysig."**  
Mrs KS, Caint



## Cwestiynau i'w gofyn

Holwch y nanis am eu sgiliau, eu profiad a'u rhinweddau personol. Gwnewch restr o gwestiynau sy'n bwysig i chi – gall y rhai canlynol fod yn fan cychwyn i chi:

- ✓ Pam y gwnaethoch chi benderfynu bod yn nani?
- ✓ Beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf am y swydd?
- ✓ Disgrifiwch y plant yr ydych wedi gofalu amdanynt yn y gorffennol.
- ✓ Pa fath o weithgareddau y byddech chi'n eu gwneud gyda fy mhlant?
- ✓ Pa fath o brydau bywd a byrbrydau rydych chi'n mwynhau eu paratoi ar gyfer y plant?
- ✓ Beth sy'n ymddygiad annerbyniol yn eich barn chi, a sut rydych chi'n ymdrin ag ymddygiad o'r fath?
- ✓ Beth fyddech chi'n ei wneud mewn argyfwng?
- ✓ I ble rydych chi'n mwynhau mynd â'r plant?
- ✓ Beth rydych chi'n ei fwynhau fwyaf ynghylch gofalu am blant?
- ✓ Beth yw'r peth gorau yr ydych wedi'i gyflawni ers bod yn nani?
- ✓ Sut rydych chi'n cyfathrebu â'r rhieni yr ydych yn gweithio gyda nhw?
- ✓ Beth, yn eich barn chi, yw rhinweddau pwysicaf nani dda?

### GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN GWIRIO'R CANLYNOL:

- ✓ tystlythyrau
- ✓ prawf o bwy yw'r person, gan gynnwys rhywbeth â llun y person arno
- ✓ tystysgrif gymeradwyo os oes un gan y person
- ✓ trwydded yrru lawn a glân os oes un gan y person
- ✓ tystysgrif cymorth cyntaf
- ✓ unrhyw dystysgrifau sy'n nodi cymwysterau.

### GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN TRAFOD Y CANLYNOL:

- ✓ eich syniadau a'ch rheolau mewn perthynas â rheoli ymddygiad
- ✓ yr oriau yr ydych yn disgwyl i'r nani eu gweithio a'r dyletswyddau yr ydych yn disgwyl i'r nani eu cyflawni
- ✓ faint rydych yn bwriadu ei dalu a'r dull o dalu
- ✓ ffyrdd o gadw eich plentyn yn ddiogel
- ✓ rheolau sylfaenol – gallai'r rhain gynnwys rheolau yr ydych yn disgwyl i'r plant eu dilyn yn ogystal â'r rheolau sy'n berthnasol i'r nani tra'i fod ef/ei bod hi'n byw yn eich cartref
- ✓ materion yn ymwneud â defnyddio'r car
- ✓ llety (os bydd y nani'n byw yn eich cartref).



**Sicrhau bod y  
trefniant yn  
gweithio**

Cymerwch amser i wneud yn siŵr bod eich plentyn yn gwbl gartrefol gyda'r person newydd sy'n gofalu amdano. Cynyddwch yr amser yr ydych yn eu gadael gyda'i gilydd yn raddol. Gadewch nhw am ryw hanner awr i ddechrau tra byddwch chi'n mynd allan am ychydig i siopa. Dywedwch wrth eich plentyn eich bod yn mynd bob tro (peidiwch â mynd allan heb yn wybod iddo), a gwnewch yn siŵr ei fod yn gwybod eich bod yn dod nôl. Os yw eich plentyn yn cael ei adael yng nghartref y gwarchodwr plant, gadewch un o'i deganau gydag ef neu eitem sy'n gysur iddo, neu gadewch rywbeth sy'n eiddo i chi gan ofyn iddo ofalu amdano. Pan fydd y nani yn dod i'ch cartref, gadewch ddigon o bethau allan fel bod gan y nani a'r plant ddigon i'w difyrru a'u cadw'n brysur.

Cytunwch ar "gyfnod cynefino" gyda'ch gwarchodwr plant neu'ch nani, a rhowch fanylion y cyfnod hwn yn y contract. Bydd modd i'r gofalwr plant neu'r rhieni ddod â'r trefniant i ben yn ystod y cyfnod hwn heb roi'r rhybudd arferol sy'n gysylltiedig â gadael swydd.



### Contractau

P'un a ydych yn cyflogi nani neu'n gwneud trefniadau gyda gwarchodwr plant, mae'n hanfodol eich bod yn cytuno ar gontract ysgrifenedig. Mae hynny'n golygu y bydd disgwyliadau pawb yn glir o'r cychwyn cyntaf. Adolygwch eich contract yn rheolaidd, a gwnewch yn siŵr bod unrhyw newidiadau y cytunir arnynt yn cael eu nodi, yn cael eu llofnodi gan y ddau barti, ac yn cael eu dyddio.

#### YR HYN Y DYLLID EI ROI MEWN CONTRACT NANI

Trafodwch y swydd yn fawr gyda'ch nani, a neilltuwch amser i fynd drwy'r contract a chytuno arno. Bydd y contract yn nodi pob agwedd ar y swydd yn glir, a bydd yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'ch nani. Dylai'r contract gynnwys y manylion canlynol:

- ✓ disgrifiad swydd ac oriau gwaith
- ✓ cyflog a'r dull o dalu y cytunwyd arno
- ✓ lwfansau gwyliau a seibiannau
- ✓ y trefniadau os yw'r nani neu'r plentyn yn sâl
- ✓ y trefniadau o safbwynt talu treuliau
- ✓ rheolau'r cartref a manylion y llety (os yw'r nani yn byw yn eich cartref)
- ✓ cytundebau'n ymwneud â rheoli ymddygiad
- ✓ caniatâd i fynd â'r plant allan, rhoi bath i'r plant, rhoi eli haul ar eu croen, tynnu lluniau ohonynt ac ati
- ✓ cyfnod o rybudd.

I gael rhagor o wybodaeth am gyflogi nani, darllenwch "Employing an Approved Childcarer". Gallwch lawrlwytho copi o'r llyfryn trwy glicio ar fotwm 'FAQs' ar y wefan ganlynol: [www.childcareapprovalscheme.co.uk](http://www.childcareapprovalscheme.co.uk)

#### Y MANYLION A GAIFF EU RHOI MEWN CONTRACT GWARCHODWR PLANT

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i warchodwyr plant yng Nghymru a Lloegr gael cytundeb ysgrifenedig gyda rhieni neu warcheidwaid pob plentyn y maent yn gofalu amdano. Mae llawer o warchodwyr plant yn defnyddio contract yr NCMA, ond bydd unrhyw ddogfen a gaiff ei llofnodi gan y ddau barti yn gytundeb cyfreithiol. Bydd y materion canlynol ymhlith y rhai y bydd angen i chi gytuno arnynt:

- ✓ ffi'r gwarchodwr plant
- ✓ unrhyw gostau ychwanegol, er enghraifft, ar gyfer prydau bwyd, nwyddau ymolchi neu dripiâu
- ✓ yr adegau y mae'r gwarchodwr plant ar gael
- ✓ unrhyw ffioedd ychwanegol, er enghraifft, yn ystod gwyliau cyhoeddus neu y tu allan i oriau gwaith arferol
- ✓ y trefniadau ar gyfer gwyliau'r teulu a gwyliau'r gwarchodwr plant
- ✓ y trefniadau pan fydd eich plentyn neu'r gwarchodwr plant yn sâl
- ✓ blaendaliadau neu daliadau cadw lle
- ✓ cyfnod o rybudd.

## Adolygu eich contract

Mae'r NCMA yn argymhell eich bod chi a'ch gofalwr plant yn adolygu eich contract bob chwech neu ddeuddeg mis. Mae hynny'n golygu y byddwch hefyd yn cael cyfle i drafod cynnydd eich plentyn a thrafod sut mae pethau'n mynd.

## Rhoi rhybudd

Os ydych chi (neu'r gofalwr plant) am ddod â'r contract i ben neu newid y trefniadau, dylech chi (neu'r gofalwr plant) roi rhybudd ysgrifenedig ynghylch hynny i'r person arall. Os nad ydych chi (neu'r gofalwr plant) yn gallu aros i'r cyfnod o rybudd ddod i ben, neu'n amharod i wneud hynny, mae'n rhaid i chi (neu'r gofalwr plant) dalu i'r person arall y ffioedd gofal plant a fyddai wedi bod yn ddyledus yn ystod y cyfnod hwnnw o rybudd.

## Mae'n bwysig siarad

Mae cyfathrebu'n rheolaidd yn hanfodol os ydych am gynnal perthynas weithio dda â'ch gwarchodwr plant neu'ch nani. I ddechrau, bydd angen i'ch gofalwr plant gael gwybodaeth am y canlynol:

- ✓ unrhyw alergedd a/neu gyflwr meddygol sy'n berthnasol i'ch plentyn
- ✓ unrhyw fwyd y mae'n ei hoffi'n fawr neu'n ei gasáu
- ✓ hoff deganau, gweithgareddau, llyfrau neu eitemau sy'n gysur iddo
- ✓ patrymau cysgu
- ✓ geiriau arbennig am bethau.

Yna, ar ddechrau pob diwrnod, cofiwch sôn am unrhyw beth a allai effeithio ar hwy! neu ymddygiad eich plentyn, megis noson wael o gwsg. Mae'n ddefnyddiol cadw dyddiadur y gallwch chi a'ch gofalwr plant ei ddefnyddio i wneud nodiadau.

Neilltuwch amser yn rheolaidd i siarad â'ch gwarchodwr plant neu'ch nani am gynnydd eich plentyn. Gallech fod yn siarad â'ch gilydd un noson yr wythnos ar y ffôn. Cynlluniwch gyfarfodydd â hwy, bob chwe mis efallai, i adolygu eich contract a thrafod unrhyw newidiadau y gallech chi neu'ch gwarchodwr plant fod am eu gwneud.

## Os oes problemau'n codi

Os oes unrhyw beth yn eich poeni, dylech siarad â'ch nani neu'ch gwarchodwr plant ar unwaith oherwydd gall pryderon ddwysáu y tu hwnt i bob rheswm weithiau. Ceisiwch annog eich gwarchodwr plant neu'ch nani i wneud yr un peth. Gellir datrys y rhan fwyaf o anawsterau drwy gael sgwrs gyfeillgar neu drwy gyfeirio at y contract gyda'ch gilydd. Ystyriwch p'un a yw'r gŵyn sydd gennych yn ymwneud â'r gwarchodwr plant neu'r nani, neu'n ymwneud ag ansawdd ei waith/gwaith.

Os nad yw cyfarfod â'ch gwarchodwr plant neu'ch nani yn datrys problem, gallwch gael cyngor drwy ffonio Llinell Wybodaeth yr NCMA yn rhad ac am ddim ar 0800 169 4486.



# Cymorth gyda chostau gofal plant

Gall talu am ofal plant lyncu cyfran fawr o incwm eich cartref. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa gymorth ariannol sydd ar gael cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Os ydych yn defnyddio gwarchodwr plant cofrestredig, gallai fod modd i chi hawlio'r elfen gofal plant sy'n perthyn i'r Credyd Treth Gwaith. Mae'r elfen honno ar gael i rieni sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig. Gallai hynny eich helpu i dalu'r gost sy'n gysylltiedig â ffioedd gofal plant.

**I gael rhagor o wybodaeth am gredydau treth**

Ffoniwch y Llinell Gymorth Credydau Treth ar 0845 302 1489 (Cymraeg) neu 0845 300 3900 (Saesneg), neu trowch at [www.hmrc.gov.uk/childcare](http://www.hmrc.gov.uk/childcare).

**I gael rhagor o wybodaeth am dalebau gofal plant a threth**

Darllenwch daflen IR115 Cyllid y Wlad, 'Childcare Provided by Employers', neu trowch at [www.inlandrevenue.gov.uk/childcare](http://www.inlandrevenue.gov.uk/childcare) – gweler yr arweiniad i weithwyr.

## My interview notes/Fy nodiadau yn ystod cyfweiliad

### CHILDCARER 1/GOFALWR PLANT 1

Name/Enw:

---

Address/Cyfeiriad:

---

---

---

Phone number/Rhif ffôn:

---

Date and time of planned visit/

Dyddiad ac amser yr ymweliad a drefnwyd:

---

The childcarer/Y gofalwr plant:

---

---

---

---

I have checked/Rwyf wedi gwirio'r canlynol:

---

---

---

---

We discussed/Rydym wedi trafod y canlynol:

---

---

---

---

## My interview notes/Fy nodiadau yn ystod cyfweiliad

### CHILDCARER 2/GOFALWR PLANT 2

Name/Enw:

---

Address/Cyfeiriad:

---

---

---

Phone number/Rhif ffôn:

---

Date and time of planned visit/

Dyddiad ac amser yr ymweliad a drefnwyd:

---

The childcarer/Y gofalwr plant:

---

---

---

I have checked/Rwyf wedi gwirio'r canlynol:

---

---

---

---

We discussed/Rydym wedi trafod y canlynol:

---

---

---

The following terms of registration apply to the various categories/  
Mae'r amodau cofrestru canlynol yn berthnasol i'r gwahanol categorïau

	Nanny/Nani	Registered childminder/ Gwarchodwr plant cofrestredig	Over-7s childminder/ Gwarchodwr plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed
Registered with Ofsted or CSIW/Wedi cofrestru gydag ASGC neu Ofsted		●	
Has a Criminal Records Bureau disclosure/Datgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gael	○	●	○
Has a medical check/Yn cael archwiliad meddygol	○	●	○
Has their home inspected/ Archwiliad yn cael ei gynnal o'u cartref		●	
Works in their own home/ Yn gweithio yn eu cartref eu hunain		●	●
Works in the family home/ Yn gweithio yng nghartref y teulu	●		
Has public liability insurance/ Yn meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus	○	●	○

- Applies to this category/Mae'n berthnasol i'r categori hwn
- Could apply to this category/Gallai fod yn berthnasol i'r categori hwn

## The terms of registration of various categories/ 55 Amodau cofrestru gwahanol categorïau

	Nanny/Nani	Registered childminder/ Gwarchodwr plant cofrestredig	Over-7s childminder/ Gwarchodwr plant sy'n gofalu am blant dros 7 oed
Has first-aid training/ Yn cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf	○	●	○
Has a qualification or has attended an induction course/ Yn meddu ar gymhwyster neu wedi bod ar gwrs sefydlu	○	●	○
Allowed to look after a baby/ Yn cael gofalu am fabanod	●	●	
Allowed to look after children over 7/ Yn cael gofalu am blant dros 7 oed	●	●	●
Usually looks after children from one family/ Yn gofalu am blant o un teulu fel rheol	●		
Usually looks after children from more than one family/ Yn gofalu am blant o fwy nag un teulu fel rheol	○	●	●
Is usually an employee/ Yn weithiwr cyflog fel rheol	●		
Is usually self-employed/ Yn hunangyflogedig fel rheol		●	●

- Applies to this category/Mae'n berthnasol i'r categori hwn
- Could apply to this category/Gallai fod yn berthnasol i'r categori hwn



## Where next?

National Childminding Association (NCMA)  
Provides information about home-based childcare. NCMA does not provide details of available places.

Tel: 0800 169 4486  
[www.ncma.org.uk](http://www.ncma.org.uk)

Children and Families Division  
Offers details of children's information services in Wales.

Tel: 029 2082 6802

ChildcareLink  
Search for registered childcare in your area.

Tel: 0800 096 0296  
[www.childcarelink.gov.uk](http://www.childcarelink.gov.uk)

## Ble nesaf?

Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)  
Mae'n darparu gwybodaeth am ofal plant yn y cartref. Nid yw'r NCMA yn darparu manylion am leoedd gwag sydd ar gael.

Ffôn: 0800 169 4486  
[www.ncma.org.uk](http://www.ncma.org.uk)

Yr Is-adran Plant a Theuluoedd  
Mae'n rhoi manylion am wasanaethau gwybodaeth plant yng Nghymru.

Ffôn: 029 2082 6802

ChildcareLink  
Mae'n eich galluogi i chwilio am wasanaethau gofal plant cofrestredig yn eich ardal.

Ffôn: 0800 096 0296  
[www.childcarelink.gov.uk](http://www.childcarelink.gov.uk)

**My local Children's Information Service/  
Fy Ngwasanaeth Gwybodaeth Plant lleol**



[www.ncma.org.uk](http://www.ncma.org.uk)

Registered Charity/Elusen Gofrestredig 295981

CHCW 07/06